# Polisi ail-ymchwilio IOPC

**21 Ionawr 2026**

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ................................................................ Error! Bookmark not defined.
**Beth yw ail-ymchwiliad?** ................................................................ **1**
**O dan ba amgylchiadau mae'n berthnasol?** ................................................ **2**
**Sut mae penderfyniad yn cael ei wneud?** ................................................ **3**
**Diffiniad o wall perthnasol a/neu wybodaeth arwyddocaol newydd** .................... **4**
**Casgliad gwahanol o ran y diffiniad o ddisgyblaeth neu berfformiad** ................. **5**

# Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn wedi'i ddatblygu i gynorthwyo Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) i benderfynu a oes angen ail-ymchwilio i achos a ddaeth i ben yn flaenorol.

Mae ail-ymchwilio i achosion a ddaeth i ben yn gofyn am ystyried yn ofalus yr ymchwiliad gwreiddiol ac unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth newydd sydd wedi dod i'r amlwg ers i'r ymchwiliad gwreiddiol gael ei gwblhau. Rydyn ni'n cydnabod y gall fod yn amser heriol i'r sawl sydd dan sylw ac felly rhaid i'r penderfyniad i ail-ymchwilio gael ei weithredu'n drylwyr a'I neilltuo ar gyfer amgylchiadau lle ceir cyfiawnhad clir drosto.

Bydd penderfyniadau i ail-ymchwilio yn dibynnu ar ystod o ffactorau sy'n benodol i'r achos dan sylw. Mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion a'r gweithdrefnau a fydd yn cael eu dilyn wrth benderfynu a ddylid ail-ymchwilio, ochr yn ochr â'r ystyriaethau allweddol a fydd yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau.

# Beth yw ail-ymchwiliad?

O dan Adran 13B, Deddf Diwygio'r Heddlu 2002, mae gan IOPC y pŵer i ail-ymchwilio i gŵyn, mater ymddygiad neu farwolaeth neu fater o anaf difrifol lle mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn fodlon bod 'rhesymau argyhoeddiadol' dros wneud hynny. Nid yw'r cynllun statudol yn rhoi unrhyw arweiniad pellach ynghylch pryd y gellid bodloni 'rhesymau argyhoeddiadol'. Felly, er mwyn cynorthwyo penderfynwyr IOPC i arfer y doethineb hwn yn briodol, lluniwyd y prawf trothwy canlynol[1].

[1] Mae'r prawf trothwy wedi'i ail-lunio yn dilyn y dehongliad a roddwyd i'r prawf trothwy gwreiddiol a ymddangosodd yn y 'Re-investigation of an IOPC investigation policy January 2021' gan yr Uchel Lys yn achos **R (y Brenin ar gais Skelton) v Cyfarwyddwr Cyffredinol IOPC** [2024] EWHC 983

Er mwyn dod o hyd i 'resymau argyhoeddiadol' rhaid i'r penderfynwr yn IOPC fod yn fodlon yn ôl cydbwysedd tebygolrwydd fod:

A. yr ymchwiliad gwreiddiol yn ddiffygiol i'r graddau lle, oni bai am y diffyg, byddai'r casgliad a dynnwyd ar ddiwedd yr ymchwiliad yn wahanol o ran disgyblaeth, perfformiad a/neu atgyfeiriad at Wasanaeth Erlyn y Goron,
B. gwybodaeth newydd a phwysig sy'n gofyn am ymchwiliad pellach lle, pe fyddai'r wybodaeth wedi bod ar gael ar y pryd, byddai wedi arwain at gasgliad diwedd ymchwiliad gwahanol o ran disgyblaeth, perfformiad a/neu atgyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron; ac
C. fod angen ail-ymchwilio er budd y cyhoedd mewn perthynas â'r naill amod A neu B.

Ni ellir ac ni ddylid defnyddio'r pŵer i ail-ymchwilio er mwyn yr unig ddiben o newid penderfyniad ar ôl cwblhau adroddiad yr ymchwiliad.

Os ceir penderfyniad i ail-ymchwilio, bydd hyn yn arwain at gwblhau adroddiad ymchwiliad newydd a dogfen gwneud penderfyniadau.

## O dan ba amgylchiadau mae ail-ymchwiliad yn berthnasol?

Mae'r pŵer i ail-ymchwilio ar gael pan mae adroddiad a gwblhawyd ar ymchwiliad cyfeiriedig neu annibynnol i gŵyn, mater ymddygiad cofnodadwy neu fater marwolaeth neu fater o anaf difrifol wedi cael ei anfon at benderfynwr IOPC.

Gellir defnyddio'r pŵer o dan adran 13B ar gyfer pob ymchwiliad annibynnol a chyfeiriedig. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio adran 13B i ail-ymchwilio i ymchwiliad rheoledig.

Mae'n berthnasol i'r ymchwiliadau hyn pryd bynnag cafodd y gŵyn ei wneud neu bryd bynnag daeth y mater i sylw'r awdurdod priodol.

Ni fydd angen defnyddio'r pŵer hwn pan nad yw IOPC wedi cyflawni ei holl swyddogaethau o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 fel Hawl Dioddefwr i Adolygiad.

---

(Gweinyddol). Mae'r prawf trothwy wedi'i adolygu i ddarparu eglurder ystyr ac i sicrhau bod y trothwy ar gyfer ail-ymchwilio yn drothwy digon uchel i gyd-fynd yn briodol â'r prawf statudol o 'resymau argyhoeddiadol'.

Gall cais VRR llwyddiannus effeithio ar y penderfyniadau ynghylch ymddygiad swyddog heddlu neu staff ond ni fydd o reidrwydd yn arwain at ail-ymchwiliad. Am ragor o wybodaeth, gweler ein polisi VRR.

# Sut caiff penderfyniad ei wneud?

Ar ôl derbyn awgrym y gallai fod angen ail-ymchwiliad, bydd IOPC yn cynnal adolygiad i lywio penderfyniad ynghylch a yw'r prawf 'rheswm argyhoeddiadol' wedi'i fodloni.

Gall awgrym o'r fath ddod i sylw IOPC mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i dystiolaeth newydd yn dod i'r fei neu ddiffyg perthnasol posibl yn yr ymchwiliad, sy'n dod i'r fei trwy, neu yn dilyn:

- Tystiolaeth mewnol IOPC
- Her i gyfraith gyhoeddus
- Cwyn
- Cwest
- Achos llys troseddol

Pan fydd adolygiad mewnol IOPC yn cael ei gynnal, ni fydd y ffaith bod yr adolygwr yn anghytuno â phenderfyniad neu ganlyniad o reidrwydd yn golygu bod y penderfyniad yn anghywir. Dylai'r adolygydd ganiatáu elfen o ddisgresiwn wrth asesu a oedd diffyg perthnasol yn yr ymchwiliad. Mae'n rhesymol disgwyl y gallai dau benderfynwr fod â barn wahanol, yn enwedig wrth gymryd rhan mewn penderfyniadau cymhleth sy'n cynnwys dadansoddi tystiolaeth helaeth. Dylid gofyn a oedd y penderfynwr gwreiddiol wedi ystyried yr holl faterion perthnasol ac wedi dod i benderfyniad rhesymol y gellir ei gyfiawnhau.

Gall cwest ymchwilio i'r un digwyddiad ag ymchwiliad IOPC ond, bydd gan gwest bwrpas gwahanol [2] ac fe glywir tystiolaeth ychwanegol mewn cwest, felly gall ddod i gasgliad gwahanol i ymchwiliad IOPC. Fodd bynnag, ni fydd casgliad gwahanol mewn cwest o reidrwydd yn golygu y bydd ail-ymchwiliad IOPC yn dilyn. Nid yw'r ymchwiliad gwreiddiol o reidrwydd yn ddiffygiol dim ond oherwydd bod cwest yn dod i gasgliad gwahanol, yn enwedig pan fydd penderfynwyr IOPC yn dod i'w casgliadau hwy trwy ddefnyddio cyfundrefn statudol wahanol ac at ddiben budd cyhoeddus gwahanol. Mewn rhai achosion, er bod casgliad y cwest yn wahanol, ni fydd yr ymchwiliad gwreiddiol yn ddiffygiol, ac ni fydd chwaith wybodaeth newydd bwysig yn cyfiawnhau ail-ymchwiliad. Bydd ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i bob achos unigol.

Bydd y camau i'w cymryd mewn unrhyw adolygiad yn cael eu llywio gan faint a natur y deunydd sydd angen ei archwilio.

[2] Pwrpas cwest yw nodi achos meddygol y farwolaeth, ac ateb pedwar cwestiwn statudol: pwy fu farw, pryd a ble y bu farw, a sut y gwnaethant farw – yn materion cysylltiedig erthygl 2 o Siarter Hawliau Dynol Ewrop, mae hyn yn cynnwys canfod dan ba amgylchiadau y bu i'r ymadawedig farw (gweler a.5 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009)

Gall yr adolygiad ystyried – heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- difrifoldeb unrhyw honiadau yn yr ymchwiliad gwreiddiol
- cryfder, dibynadwyedd ac arwyddocâd y dystiolaeth neu wybodaeth newydd a'r rhesymau pam na chafodd ei hystyried yn yr ymchwiliad gwreiddiol
- i ba raddau y mae unrhyw ddiffyg a nodwyd yn debygol o fod wedi effeithio ar y casgliad a wnaed ar ddiwedd yr ymchwiliad o ran mesurau disgyblu a pherfformiad a/neu atgyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron.
- Effaith y digwyddiad ar y gymuned

Cyn i'r adolygiad ddechrau, bydd IOPC yn ystyried rhoi gwybod i unrhyw gyfranogwyr cysylltiedig â'r ymchwiliad. Fodd bynnag, rhaid ystyried a fyddai unrhyw ragfarn (h.y. niwed neu annhegwch) i ail-adolygiad dilynol yn dod yn sgïl yr hysbysiad.

Bydd yr amser a gymer i gwblhau adolygiad yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos. Er enghraifft, gall croesgyfeirio deunydd o'r ymchwiliad IOPC blaenorol â thystiolaeth a/neu ddeunydd newydd gymryd mwy o amser yn ôl maint a chyfanswm y deunydd. Bydd IOPC yn diweddaru rhanddeiliaid perthnasol ar amserlenni yn ystod y broses adolygu.

Ar ôl dod â'r adolygiad i ben, bydd IOPC yn dod i benderfyniad dros dro. Bydd y penderfyniad yn darparu manylion am y rhesymau dros y penderfyniad.

Bydd hyn wedyn yn cael ei ddosbarthu i'r rhanddeiliaid perthnasol a'r partïon â buddiant. Yna, bydd gan y rhanddeiliaid 14 diwrnod, fel rheol, i gyflwyno sylwadau ar y penderfyniad amodol.

Yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd, bydd IOPC yn ystyried yr holl safbwyntiau cyn gwneud penderfyniad a throsglwyddo'r canlyniad i'r holl gyfranogwyr perthnasol.

# Diffiniad o wall perthnasol a/neu wybodaeth newydd arwyddocaol

Nid yw gwall perthnasol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymchwiliad fod mor ddiffygiol fel ei fod yn arwain at sail ar gyfer adolygiad barnwrol. Fodd bynnag, rhaid penderfynu bod y gwall perthnasol mor arwyddocaol fel y byddai'n debygol o fod wedi arwain at gasgliad gwahanol ar ddiwedd yr ymchwiliad ar ddisgyblaeth, perfformiad a/neu atgyfeiriad i Wasanaeth Erlyn y Goron. Er enghraifft, gallai hyn fod yn fethiant i ystyried tystiolaeth berthnasol yn briodol a/neu roi pwysau gormodol ar dystiolaeth amherthnasol.

Rhaid i wybodaeth newydd arwyddocaol fod yn rhywbeth a fyddai, pe bai'n hysbys ar y pryd, yn debygol o fod wedi arwain at gasgliad gwahanol ar ddisgyblaeth, perfformiad a/ neu atgyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron. Mae hyn yn debygol o fod yn dystiolaeth fideo neu sain nad yw ar gael i IOPC yn ystod ein hymchwiliad ond gall gynnwys tystiolaeth arall fel adroddiadau tystion ychwanegol a roddwyd i achosion cwest ar ôl casgliad i ymchwiliad IOPC.

## Casgliad gwahanol o ran y diffiniad o ddisgyblaeth neu berfformiad

Er budd y cyhoedd, bydd ail-ymchwiliad fel arfer yn angenrheidiol ac felly, dim ond yn mynd yn ei flaen os ydyw'n debygol o arwain at gasgliad IOPC gwahanol.

Ar gyfer amod A, rhaid i'r gwall perthnasol fod yn ddigon arwyddocaol fel y byddai'r ymchwiliad yn debygol o fod wedi arwain at gamymddwyn difrifol, analluogrwydd difrifol, neu gamymddwyn a allai arwain at ddiswyddiad.

Ar gyfer amod B, rhaid i'r wybodaeth newydd fod yn ddigon arwyddocaol fel y byddai'n debygol o arwain at gamymddwyn difrifol, anghymwystra difrifol, neu gamymddwyn a allai arwain at ddiswyddiad.

Mae'n annhebygol y byddai budd y cyhoedd yn cael ei wasanaethu orau trwy gynnal ail-ymchwiliad sy'n debygol o arwain at ganlyniad o gamymddwyn ar lefel isel yn unig. Bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos yn ogystal â hanes camymddwyn y swyddogion a'r staff.

## Dysgu Mewnol

Mae unrhyw ystyriaeth o gynnal ail-ymchwiliad yn cynnig cyfle i dynnu sylw at ddysgu mewnol, yn enwedig lle mae'n ymddangos ein bod ni wedi cael pethau'n anghywir. Pan ddarganfyddir cyfle i ddysgu, caiff hyn ei gyfathrebu, fel yn berthnasol, i'r unigolion sy'n cymryd rhan, neu ar lefel sefydliadol ehangach.

Cyhoeddwyd Ionawr 2026

**© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2026)**

OGL Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0
oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon.
Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I ddysgu mwy am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)**
**10 South Colonnade Canary Wharf London E14 4PU**
Ffôn: **0300 020 0096**
E-bost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk/cy**
Testun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg, ni fydd oedi mewn ymateb

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE® CSE